Archwilio Cymru
Audit Wales

# Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll – Addysg Iechyd a Gwella Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2019A2020-21

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a rhai eraill, gan gynnwys archwilio cyfrifon Cyrff GIG Cymru, a rhoi adroddiad i'r Senedd am ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyrff hynny wrth ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gan ddefnyddio staff ac anodau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gyda'i gilydd. Maent yn endidau cyfreithiol ar wahân, ill dau â'u swyddogaethau cyfreithiol fel y disgrifiwyd uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ddim swyddogaethau ynddo'i hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn ei swyddogaeth unigol, nag ag unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os daw cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn gosod allan yr arfer wrth drin ceisiadau a disgwyliadau gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau am ddatgelu'r ddogfen hon neu ei hailddefnyddio gael eu hanfon at infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn golygu oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.This document is also available in Welsh.

# Cynnwys

Mae HEIW yn dangos ei ymrwymiad i wrth-dwyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi atal a datgelu twyll, ac mae'n gallu ymateb yn briodol lle bydd twyll yn digwydd.


Adroddiad cryno

- Cefndir 4
- Prif ddarganfyddiadau a meysydd i'w gwella 5

Adroddiad manwl

- Ein darganfyddiadau 6

Atodiadau

- Atodiad 1 – Adnoddau gwrth-dwyll 12
- Atodiad 2 – Ymateb rheolwyr 13

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1. Ar 11 Mehefin 2019 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad Trefniadau Gwrth-Dwyll yn Sector Cyhoeddus Cymru Drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yr oedd yr adroddiad yn drosolwg disgrifiadol ar lefel uchel o'r trefniadau ar waith o fewn Llywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol (awdurdodau unedol yn unig), ac yr oedd yn tynnu sylw at rai negeseuon pwysig:
   - mae colledion a achosir gan dwyll yn y sector cyhoeddus yn sylweddol. Ar adeg o gyni, mae pob punt a gollir oherwydd twyll yn bunt y gellid ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus.
   - mae twyll ym mhob ffurf yn datblygu'n gyson, felly mae angen i gamau gwrth-dwyll gadw i fyny â'r twyllwyr.
   - mae adnoddau ar gyfer gwrth-dwyll yn amrywio'n helaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.
2. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cefnogodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith pellach ar draws amrywiaeth o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau gwrth-dwyll mewn gwirionedd, ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Gwnaed y gwaith hwn rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.
3. Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol dan y teitl 'Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru', sy'n rhoi crynodeb o'n harolwg ar draws Cymru. Nid yw'n disgrifio'n fanwl y trefniadau sydd ar waith mewn cyrff unigol, ond mae'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd i wella trefniadau gwrth-dwyll ledled Cymru.
4. Tra oedd yr adroddiad cenedlaethol yn nodi mai trefniadau gwrth-dwyll y GIG yw'r rhai mwyaf datblygedig ar draws y sector cyhoeddus, yr oedd yn nodi bod yna agenda heriol o hyd i wneud trefniadau gwrth-dwyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf, lle mae globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd i'r twyllwyr.
5. Mae'r adroddiad yn galw ar gyrff y GIG i fod yn fodlon:
   - bod adnoddau gwrth-dwyll yn cael eu penderfynu ar sail asesiad o ffactorau risg lleol;
   - bod asesiadau atal twyll yn cael eu hintegreiddio mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli risg;
   - bod strategaethau ar waith i ddefnyddio mwy o ddadansoddeg data i atal ac i ddatgelu twyll; a
   - bod strategaethau ar waith i wella cydweithio o fewn y sector ac yn ehangach ar draws ffiniau sectorau.

6. Mae'r adroddiad cryno hwn yn gosod allan ein hasesiad o drefniadau Addysg Iechyd a Gwella Cymru (HEIW) ar gyfer atal a datgelu twyll. Mae ein hasesiad wedi'i seilio ar adolygiadau o ddogfennau, gan gynnwys papurau byrddau a phwyllgorau, a chyfweliadau â nifer fach o staff.

# Prif ddarganfyddiadau a meysydd i'w gwella

7. Yr oedd ein hasesiad yn nodi bod HEIW yn dangos ei fod wedi ymrwymo i wrth-dwyll, bod ganddo drefniadau addas i atal a datgelu twyll, a'i fod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd. Mae ein prif ddarganfyddiadau o'r gwaith wedi eu gosod allan yn fanylach yn yr adran sy'n dilyn yn yr adroddiad hwn.
8. Wrth wneud y gwaith hwn, gwelsom rai meysydd i'w gwella (**Dangosyn 1**), a dylid eu hystyried ynghyd â'r themâu yn yr adroddiad cenedlaethol. Mae ymateb rheolwyr HEIW i'r meysydd i'w gwella i'w gael yn **Atodiad 2**.

**Dangosyn 1: meysydd i'w gwella**

| **Meysydd i'w gwella** | |
|---|---|
| **Hyfforddiant gwrth-dwyll** | |
| I1 | Gweithredu hyfforddiant gorfodol gwrth-dwyll i rai neu bob un o'r grwpiau staff. |
| **Capasiti staff gwrth-dwyll** | |
| I2 | Ystyried y capasiti Arbenigedd Gwrth-Dwyll Lleol sy'n ofynnol i ddarparu adnoddau ar gyfer lefelau angenrheidiol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, ac adeiladu gwytnwch o fewn y tîm. |
| **Cofnodi a monitro risg twyll economaidd** | |
| I3 | Bod yn gyson wrth gofnodi a monitro risg twyll economaidd yn unol â pholisi a strategaeth rheoli risg HEIW. |

Ffynhonnell y dangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Ein darganfyddiadau

9. Mae'r tabl sy'n dilyn yn gosod allan y meysydd canolbwyntio yn ein gwaith a'n darganfyddiadau.

| **Meysydd gwaith** | **Darganfyddiadau** |
|---|---|
| Ystyriwyd a yw'r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i wrth-dwyll ac yn darparu'r arweiniad angenrheidiol i atal twyll.<br>Disgwyliem weld:<br>• Y Bwrdd/y tîm Gweithredol yn hyrwyddo ymrwymiad clir i ddim goddefgarwch o dwyll ac yn hyrwyddo gwaith gwrth-dwyll.<br>• Uwch arweinwyr yn rhagweithiol yn hyrwyddo ac yn rhaeadru diwylliant o atal twyll.<br>• Dealltwriaeth ar draws y sefydliad o gyfrifoldebau dros wrth-dwyll a rhoi gwybod am ddrwgdybio twyll.<br>• Ymrwymiad gan y sefydliad i wrth-dwyll a hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth moeseg, gyda hyfforddiant gwrth-dwyll priodol a gorfodol wedi'i dargedu i'r staff i gyd. | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gyllid yw swyddog gweithredol y Bwrdd sy'n gyfrifol am wrth-dwyll.<br>• Mae gwrth-dwyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.<br>• Caiff pob mater ynglŷn â thwyll ei drin yn flaenoriaeth gan y sefydliad, ac mae ymrwymiad clir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.<br>• Mae polisïau a strategaethau yn cyfleu neges gyson na fydd twyll yn cael ei oddef, ac y cymerir pob cam i osod cosbau troseddol neu ddisgyblaethol yn erbyn tramgwyddwyr.<br>• Mae HEIW yn cyhoeddi achosion o dwyll sydd wedi eu profi a'r camau a gymerwyd.<br>Nodwyd y maes dilynol ar gyfer ei wella:<br>• Sefydlwyd HEIW ym mis Hydref 2018. Adeg ein harolwg roedd hyfforddiant gwrth-dwyll wedi ei ddarparu gan y tîm gweithredol, uwch arweinwyr a'r tîm cyllid. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth twyll yn cael ei raeadru i staff eraill. Nid yw dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrth-dwyll yn orfodol i'r holl staff, ac nid yw ymwybyddiaeth gwrth-dwyll wedi ei gynnwys mewn hyfforddiant sefydlu i newydd-ddyfodiaid. |

| Meysydd gwaith | Darganfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan yn sefydliad strwythur addas ac adnoddau gyda digon o sgiliau i atal a datgelu twyll.<br>Disgwyliem weld:<br>• Arbenigwr Atal Twyll Lleol (LCFS) penodedig gyda chyfrifoldeb penodol dros wrth-dwyll a'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau gwrth-dwyll.<br>• Lefel briodol o staff gwrth-dwyll profiadol, wedi eu hyfforddi a'u hachredu i ymgymryd ag archwiliadau a gwaith gwrth-dwyll.<br>• Eglurder o ran swyddogaethau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd mewn gwrth-dwyll.<br>• Buddsoddi mewn gwrth-dwyll yn seiliedig ar benderfyniadau doeth yn deillio o asesiad risg o dwyll sy'n tynnu sylw at risgiau ac yn penderfynu'r adnoddau angenrheidiol i fynd i'r afael â nhw.<br>• Rhaglen flynyddol o waith gwrth-dwyll (gwaith atal twyll) sy'n cwmpasu'r risgiau a nodir yn yr asesiad risg, ac amser penodedig wedi ei neilltuo ar gyfer gwaith rhagweithiol. | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Mae gan HEIW swyddog LCFS penodedig sydd â'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau gwrth-dwyll a bennir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gyllid.<br>• Mae HEIW yn cyflogi staff gwrth-dwyll sydd wedi eu hachredu a'u hyfforddi ac sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn ôl y gofyn.<br>• Mae lefel yr adnoddau gwrth-dwyll yn HEIW yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (**Atodiad 1**). Y nifer amser-llawn cyfartalog (WTE) o adnoddau gwrth-dwyll am bob 1,000 o staff yw 0.71 WTE o'u cymharu â'r cyfartaledd o 0.19 WTE i GIG Cymru.<br>• Mae gan HEIW swyddogaethau a chyfrifoldebau gwrth-dwyll sy'n cael eu mynegi'n glir.<br>• Gall y swyddog LCFS a'r staff gwrth-dwyll ddefnyddio'r holl systemau, y cofnodion a'r adeiladau sy'n angenrheidiol iddynt wneud eu gwaith.<br>• Mae'r swyddog LCFS wedi cwblhau Offeryn Hunan-Arolygu Awdurdod Gwrth-dwyll (SRT) y GIG, a bydd yn parhau i wneud hynny bob blwyddyn. Mae'r SRT yn nodi blaenoriaethau gwaith rhagweithiol am y flwyddyn. Bydd nifer y diwrnodau a neilltuir i waith gwrth-dwyll rhagweithiol ac adweithiol yn cael ei adolygu ymhen amser i benderfynu a yw nifer y diwrnodau a neilltuir i waith gwrth-dwyll yn briodol. Mae HEIW wedi dweud bod arian ar gael os bydd angen mwy o ddiwrnodau.<br>Nodwyd y maes dilynol ar gyfer ei wella:<br>• Er bod y lefelau staffio ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, mae'r lefelau staffio yn ddim ond 0.2 WTE. Pe bai lefel y gwaith ymchwilio'n cynyddu, neu pe bai unrhyw rai o'r staff yn absennol, gallai hynny effeithio ar y gallu i ddarparu'r lefel a gytunwyd o waith gwrth-dwyll rhagweithiol. |

| Meysydd gwaith | Darganfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i gefnogi trefniadau gwrth-dwyll effeithiol.<br>Disgwyliem weld:<br>• Strategaeth/polisi gwrth-dwyll sy’n gosod allan ddull y sefydliad o reoli risgiau twyll ac yn diffinio cyfrifoldebau gwrth-dwyll penodol.<br>• Dull Gweithredu yn gosod allan ymddygiadau derbyniol a sut i roi gwybod am wrthdaro buddiannau a’u rheoli.<br>• Trefniadau cadarn ar gyfer chwythu’r chwiban sy’n gosod allan y mecanweithiau i roi gwybod am dwyll.<br>• Cofrestri’n cael eu cadw o roddion a lletygarwch.<br>• Sgrinio cyn cyflogi. | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Mae HEIW wedi datblygu polisi gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd (y polisi). Bwriedir i’r polisi gael ei adolygu, ei werthuso a’i ddiweddaru’n rheolaidd. Mae’r polisi’n cynnwys cynllun ymateb i wrth-dwyll.<br>• Craffwyd ar y polisi a’i lofnodi’n derfynol gan y swyddog LCFS, uwch reolwyr a’r Pwyllgor Archwilio.<br>• Cafodd y polisi ei ddosbarthu ar draws HEIW a’i osod ar y fewnrwyd a gwefannau’r rhyngrwyd.<br>• Mae gan HEIW bolisïau priodol ar chwythu’r chwiban a seiber ddiogelwch, ac mae prosesau adolygu ac adnewyddu ar waith.<br>• Mae gan HEIW drefniadau priodol i gynnal ac adolygu cofrestri o fuddiannau, rhoddion a lletygarwch.<br>• Adeg yr Arolwg roedd HEIW yn y broses o weithredu Polisi Safonau Ymddygiad a fyddai’n cadarnhau’r swyddogaethau a’r cyfrifoldebau ar gyfer pobl yn mynegi diddordeb, derbyn rhoddion, lletygarwch a nawdd a threfniadau monitro cysylltiedig.<br>• Mae gan HEIW drefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael yr archwiliadau cyn cyflogi cyn dechrau cyflogaeth o fewn y sefydliad.<br>Ni nodwyd dim meysydd i’w gwella. |

| Meysydd gwaith | Darganfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad asesiad risg effeithiol ar gyfer twyll, ynghyd ag ymatebion priodol i faterion sy'n datblygu.<br>Disgwyliem weld:<br>• Asesiadau risg twyll cynhwysfawr yn cael eu trafod a'u cytuno gydag uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Archwilio.<br>• Asesiadau risg twyll yn rhan o fframwaith cyffredinol y sefydliad ar reoli risg.<br>• Risg twyll wedi ei gwmpasu mewn dylunio systemau i leihau cyfleoedd am dwyll. | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Mae HEIW wedi cwblhau SRT Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG a bydd yn parhau i wneud hynny bob blwyddyn.<br>• Bydd cynlluniau gwaith blynyddol yn cael eu seilio ar wybodaeth sy'n cyrraedd ac yn cael ei nodi, arolwg o achosion sy'n parhau, atgyfeirio a blaenoriaethu gwaith rhagweithiol ledled Cymru. Mae HEIW wedi dweud y bydd lefelau adnoddau gwrth-dwyll yn gyfartal â'r lefel risg a nodir, a bydd mesurau i leddfu risgiau a nodir yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwaith.<br>• Caiff polisïau a gweithrediadau ar bapur yn cael eu diogelu rhag twyll gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddir gan Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG. Mae'r swyddog LCFS yn adolygu polisïau ac yn cynnig newidiadau lle tybir bod angen hynny.<br>Nodwyd y maes dilynol ar gyfer ei wella:<br>• Nid yw HEIW ar hyn o bryd yn cofnodi ac yn monitro risg twyll economaidd yn unol â'i bolisi a'i fframwaith rheoli risg. Dylai asesiadau risg gael eu hymgorffori o fewn y fframwaith rheoli risg ehangach, i sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ehangach a rheoli risgiau'n rhagweithiol. |
| Ystyriwyd a yw amgylchedd rheoli mewnol y sefydliad yn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer atal a datgelu twyll.<br>Disgwyliem weld: | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Mae tîm Archwilio Mewnol HEIW yn adolygu risgiau twyll ac yn profi dulliau rheoli sydd wedi eu llunio i atal a datgelu twyll fel rhan o'i raglen waith flynyddol. Caiff gwybodaeth a chudd-wybodaeth eu rhannu gyda gwasanaethau gwrth-dwyll lleol yn unol â'r protocol ar rannu gwybodaeth sydd wedi ei gytuno. |

| Meysydd gwaith | Darganfyddiadau |
|---|---|
| • Dulliau rheoli mewnol wedi eu llunio a'u profi i fynd i'r afael â risgiau twyll sy'n cael eu nodi ac i helpu atal twyll rhag digwydd.<br>• Arolygon Archwilio Mewnol o risgiau twyll a phrofi  dulliau rheoli wedi eu llunio i atal a datgelu twyll.<br>• Y sefydliad yn gweithredu argymhellion i atgyfnerthu dulliau rheoli os gwelir nad yw dulliau rheoli mewnol yn gweithio cystal â'r bwriad a dysgu gwersi o achosion o dwyll.<br>• Mae'r sefydliad yn defnyddio data cyfatebol i ddilysu data a datgelu gweithgarwch twyllo posibl | • Mae HEIW yn gweithredu argymhellion i atgyfnerthu dulliau rheoli os gwelir nad yw dulliau rheoli mewnol yn gweithio cystal â'r bwriad, a dysgu gwersi o achosion o dwyll.<br>• Mae HEIW yn cymryd rhan yn ymarfer cyfateb data y Fenter Dwyll Genedlaethol, archwiliadau dilysu taliadau gofal cychwynnol ac archwiliadau lleol eraill (megis y gyflogres).<br>• Mae HEIW yn defnyddio meddalwedd rheoli achosion i gofnodi holl wendidau systemau o ganlyniad i ymchwiliadau a/neu ymarferiadau rhagweithiol i atal a datgelu twyll. Agwedd bwysig ar y feddalwedd hon yw cofnodi gwersi a ddysgwyd.<br>Nodwyd y maes dilynol ar gyfer ei wella:<br>• Nododd ein harolwg cenedlaethol ychydig enghreifftiau'n unig o ddefnyddio dadansoddeg data fel ffordd i atal twyll, yn bennaf yn ymarfer cyfateb data'r Fenter Dwyll Genedlaethol. |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll.<br>Disgwyliem weld:<br>• Cynllun cynhwysfawr i ymateb i dwyll sy'n gosod allan drefniadau clir ar gyfer rhoi gwybod am honiadau o dwyll ac ymchwilio iddynt.<br>• Gweithredu i sicrhau bod pob honiad o dwyll yn cael ei asesu. Gweithdrefnau wedi eu dogfennu ar gyfer ymchwilio i dwyll. | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll gan HEIW yn dilyn arfer da fel y cynghorir gan Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG.<br>• Bydd staff cymwysedig yn ymchwilio i bob achos lle drwgdybir twyll, ac yn unol â'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Rhoir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio ac i Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG am ganlyniadau ymchwiliadau.<br>• Bydd yr holl ymchwiliadau'n cael ei dogfennu ar feddalwedd rheoli achosion. Mae HEIW wedi dweud y bydd dysgu o dwyll yn cael ei rannu gyda staff priodol i drefnu a gweithredu newidiadau mewn systemau a gweithdrefnau, lle mae'n briodol. |

| Meysydd gwaith | Darganfyddiadau |
|---|---|
| • Ymchwiliadau sy'n dilyn arfer proffesiynol priodol ac yn unol â'r cynllun ymateb i dwyll.<br>• Ystyried yr ystod gyfan o gosbau sydd ar gael, a cheisio cael iawn (er enghraifft, adennill arian ac asedau) lle mae'n briodol.<br>• System briodol o reoli achosion i gofnodi a monitro'r cynnydd gydag achosion posibl o dwyll.<br>• Cydweithio â phartneriaid allanol i fynd i'r afael â thwyll. | • Mae HEIW yn cysylltu'n rhagweithiol ac yn rheolaidd â sefydliadau ac asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg y GIG, yr heddlu, Gwasanaethau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, awdurdodau lleol, a chyrff rheoleiddio a phroffesiynol i helpu atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Gellir prynu gwasanaethau arbenigol oddi wrth  Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG lle mae angen.<br>Ni nodwyd dim meysydd i'w gwella. |
| Ystyriwyd  a oes gan y sefydliad ddulliau priodol i roi gwybod a chraffu i sicrhau bod ei ddiwylliant a'i fframwaith gwrth-dwyll yn gweithio'n effeithiol.<br>Disgwyliem weld:<br>• Cadw cofnod o golledion ac adenillion o dwyll.<br>• Y Pwyllgor Archwilio'n bod yn rhagweithiol wrth atal twyll a hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll effeithiol.<br>• Y Pwyllgor Archwilio'n herio ac yn adolygu gwaith gwrth-dwyll, ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn cysylltiad â gwrth-dwyll. | Gwelsom yr arfer da dilynol:<br>• Mae HEIW yn cadw cofnod o golledion ac adenillion o dwyll.<br>• Mae gwrth-dwyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.<br>• Caiff y cynllun blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd am ddarparu'r rhaglen waith flynyddol, ynghyd â risgiau twyll a gaiff eu nodi a'r camau a gymerir i'w lleihau.<br>• Caiff diweddariadau am achosion eu cynhyrchu ar gyfer sesiwn breifat y Pwyllgor Archwilio yn amlinellu'r achosion, ei statws, ac adennill arian/asedau.<br>Ni nodwyd dim meysydd i'w gwella. |

# Atodiad 1

## Adnoddau gwrth-dwyll

Mae'r dangosyn sy'n dilyn yn gosod allan nifer yr adnoddau LCFS am bob 1,000 o staff.

**Dangosyn 2: nifer yr adnoddau LCFS am bob 1,000 (yn ôl yr uchaf yn gyntaf)**

| | LCFS WTE | Cyfanswm nifer staff o fewn y sefydliad | LCFS WTE am bob 1,000 o staff (y pen) |
|---|---|---|---|
| Addysg Iechyd a Gwella Cymru[1] | 0.2 | 280 | 0.71 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG | 2.0 | 3,535 | 0.57 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys[2] | 1.2 | 2,286 | 0.52 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[2] | 2.6 | 11,944 | 0.22 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 2.0 | 10,032 | 0.20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2.6 | 13,659 | 0.19 |
| **GIG Cymru (cyfartaledd)** | **18.2** | **94,614** | **0.19** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[2] | 2.2 | 12,962 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 2.9 | 18,491 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] | 0.3 | 1,903 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[1] | 0.4 | 4,411 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[1] | 1.8 | 15,111 | 0.12 |

[1] Mae Tîm LCFS Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn darparu gwasanaethau i Addysg Iechyd a Gwella Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

[2] Mae Tîm LCFS Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd yn darparu gwasanaethau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

Ffynhonnell: Awdurdod Gwrth-Dwyll GIG Cymru, Adroddiad Perfformiad Gweithredol 2019-20 (Chwarter 3), a Chyfrif Pennau Ystadegau Cymru ar 30 Medi 2019 (wedi'u cymryd o Gofnodion Staff Electronig y GIG)

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr

Mae'r tabl sy'n dilyn yn gosod allan ymateb rheolwyr HEIW i'r meysydd i'w gwella (i'w ychwanegu ar ôl i'r adroddiad fynd at y Pwyllgor Archwilio).

| Cyf | Maes i'w wella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| I1 | **Hyfforddiant gwrth-dwyll**<br>Gweithredu hyfforddiant gwrth–dwyll gorfodol i rai grwpiau staff neu'r cyfan. | Fel rhan o'r adran Cydymffurfio a Chymhwysedd yng Nghronfa Ddata Cofnod Staffio Electronig y Corff Iechyd (ESR), rhaid i unrhyw hyfforddiant felly a dybir sy'n orfodol gael ei gytuno a chan Adran Gweithlu'r Corff Iechyd. | Yn parhau gyda dyddiad arolwg ar 31 Mawrth 2021 | Eifion Williams (Cyfarwyddwr Cyllid) a Julie Rogers (Cyfarwyddwyr Gweithlu ac OD)<br>Craig Greenstock (LCFS) |

| Cyf | Maes i’w wella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| I2 | **Capasiti staff gwrth-dwyll**<br>Ystyried y capasiti Arbenigedd Gwrth-Dwyll Lleol sy’n ofynnol i ddarparu lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddiant staff, ac ychwanegu dygnwch at y tîm. | Gan mai Awdurdod Iechyd Arbenigol newydd ei ffurfio yw HEIW, yna ar sail data hanesyddol mae’r Corff Iechyd yn hyderus bod nifer y diwrnodau yn ei gynllun gwaith cyfredol yn bodloni’r gofynion cyfredol. I gefnogi hyn caiff adolygiadau rheolaidd eu gwneud o’r gwaith CF cyfredol a’r adnoddau a ddefnyddir a’u cyflwyno i’r P/A. Fodd bynnag, pe byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau, byddai’r angen am unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael ei drafod gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid a’i gyfeirio i’w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. | 31 Gorffennaf 2020 | Craig Greenstock (LCFS) ac Eifion Williams (Cyfarwyddwr Cyllid) |

| Cyf | Maes i’w wella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| I3 | **Cofnodi a monitro risg twyll economaidd**<br>Bod yn gyson wrth gofnodi a monitro risg twyll economaidd yn unol â pholisi a strategaeth rheoli risg HEIW. | Fel rhan o arolwg y Corff Iechyd sy’n parhau a’i fframwaith rheoli risg, bydd asesiadau risg twyll hefyd yn cael eu cynnwys o fewn y fframwaith rheoli risg ehangach.<br>Bydd hyn yn sicrhau y gall perchnogaeth gorfforaethol ehangach a rheoli risg yn rhagweithiol gael eu rhoi ar waith. | 31 Mawrth 2021 | Craig Greenstock (LCFS) a’r Pennaeth Llywodraethiant |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and in English